

“When skills, knowledge and attitudes of a number of different disciplines are applied to a single experience, problem, question, theme or idea, we are working in a cross-curricular way. The experience of learning is considered on a macro level and with the curriculum on focus.” (Barnes, 2015 t. 11).

Felly, mae dysgu trawsgwricwlaidd yn digwydd pan fod sgiliau a gwybodaeth yn cael eu cymhwyso mewn i thema, syniad, broblem neu brofiad unigol. Argyhoedda Barnes y dylem gynnig profiadau cyfoethog ac amrywiol i blant yn ein hysgolion. Drwy amlygu'r profiadau yma yn rhan o'r cwricwlwm rydym yn ehangu ar addysg ein plant gan arwain at blant i ddarganfod ac adnabod eu cryfder personol yn ogystal â'u hoffterau.

Thema Seiliedig – Dydd Gŵyl Dewi (Blwyddyn 2)

Manteision dysgu drwy thema seiliedig - Pan mae athrawon sydd â gwybodaeth dda ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r model yma fel sail i addysgu'r thema, mae disgyblion yn cael eu cymell ac yn gweithio yn well.

Anfanteision dysgu drwy thema seiliedig - Drwy gael amcanion aneglur, mae'n cyfyngu ar y dysgu. Mae angen i athrawon ystyried pa themâu i'w ddefnyddio o fewn y model yma yn ofalus.

Dywed, y dylem ond defnyddio pwnc os gellir ei ddeall yn well trwy ei gymhwyso yn rhan o'r thema. Dywed hefyd y dylem ond defnyddio pwnc os mae'n hanfodol er mwyn cryfhau dealltwriaeth o'r thema.



Anfanteision dysgu yn Drawsgwricwlaidd

Nid yw pob plentyn yn ymateb yn bositif i'r dull yma o addysgu fel ysgogiad. Yn wyneb i hyn felly, nid yw'r dull o ddysgu yn drawsgwricwlaidd yn addas ar gyfer pob plentyn.

Gall athrawon cael diffyg hyder o ran dealltwriaeth a gwybodaeth pwnc. Nid yw dysgu gwybodaeth a chaffael ar sgiliau newydd yn digwydd heb gytundeb y plentyn. Bydd gan athrawon sydd yn effeithiol yn nefnydd y dull trawsgwricwlaidd ffordd o weithio gyda phlant gan wneud y dysgu yn bersonol ac yn berthnasol iddynt. (Barnes, 2015).

Mae'n anodd iawn sicrhau cynnydd pan mae mwy nag un pwnc yn cael ei addysgu mewn dull trawsgwricwlaidd. (Barnes, 2012).


Manteision Dysgu yn Drawsgwricwlaidd

Canfuwyd drwy addysgu yn drawsgwricwlaidd y mae'n ysgogi'r dysgu (Faultley a Savage, 2012).

Gall ddysgu yn drawsgwricwlaidd fod yn effeithiol drwy gynnal diddordebau, adeiladu cymhelliant boed yn unigol mewn grŵp yn ogystal â chodi safonau. Mae'n ddull pwerus er mwyn meddwl yn greadigol ac yn gydweithredol.

Pwysleisia Rose (2009) mewn adroddiad bod addysgu pynciau o fewn themâu yn rhoi cyfleoedd i blant i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy gymhwyso sgiliau ar draws y cwricwlwm.

Mae addysgu cyfoethog yn golygu bod yn drosglwyddadwy er mwyn medru ei gymhwyso mewn gwahanol sefyllfaoedd. (Barnes, 2015).



Addysgu yn drawsgwricwlaidd



Arfer dda – Estyn
Gwelir arfer dda gan Estyn lle'r oedd ysgol Tyn y Wern yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys oedd yn cynnwys profiadau addysgol cyfoethog ac ysgogol i'w ddisgyblion. Yn deillio o hyn, gwelir bod rhan helaeth o ddisgyblion yr ysgol wedi gwneud cynnydd yn ogystal â chymhwyso mewn sgiliau craidd a phwrpasol. Drwy ddilyn diddordebau'r disgyblion, gwelir dilyniant yn yr addysgu. (Estyn, 2016).

Rhif Myfyriwr: 1600595

Sgiliau Llythrennedd: Ar lafar, son am y ffaith bod y mathau cywir o fwyd a diod y bwysig er mwyn cael corff iach. Mynegi a chyfleu gwahanol deimladau ac emosïynau tra wrthi yn blasu gwahanol fathau o ffrwythau a llysiau.

Sgiliau Cymhwysedd Digidol: Cyfleoedd dysgu newydd drwy ymchwilio i'r ffrwythau a llysiau drwy ddefnyddio allweddeiriau i chwilio yn benodol. **Pfordd ymlaen:** Son am wledydd tlawd sydd heb fwyd na dŵr glan.

Sôn am ein diwylliant yng Nghymru

Sgiliau Llythrennedd: Cyfle i ddatblygu hunanddelwedd gadarnhaol drwy gael yr ymdeimlad o berthyn fel aelod o'r Urdd drwy gystadlu mewn cystadlaethau Eisteddfodol. - Elfen o Gymreictod

Pfordd ymlaen: datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol ac amrywiol sydd yn perthyn i ddiwylliannau eraill.

Gweithgaredd: Dawnsio Gwerin

Sgiliau Rhifedd: Cymryd rhan yn dawnsio gwerin sydd yn cynnig modd i blant weithio gyda phartner ac mewn grŵp bach drwy berfformio symudiadau a phatrymau o ddiwylliant yng Nghymru.

Sgiliau Cymhwysedd Digidol: Cyfle i ymarfer a datblygu sgiliau drwy edrych yn ôl ar y perfformiad

Sgiliau Llythrennedd: Rhannu ar lafar syniadau ar sut i wella'r perfformiad. Annog mewn trafodaethpam y mae'n bwysig i gadw'n heini ac i fwynhau gweithgarwch corfforol.

Dadleua Marton a Saljio (1976) er mwyn dysgu yn weithredol mae angen canolbwyntio ar ddeall sut i drawsnewid gwybodaeth drwy gysylltu syniadau gyda'i gilydd drwy edrych ar ystyr a chwilio am batrymau. Awgryma mai'r dulliau mwyaf effeithiol er mwyn cynhyrchu dysgu cyfoethog a dwfn yw o fewn grwpiau a thrwy ddatrys problemau sydd yn ystyrlon at y disgyblion.

Model Hierarchaidd – Blwyddyn Derbyn

Anelu at gynydd drwy addysgu agweddau o fewn pwnc arall yw'r model hierarchaidd. Drwy ddysgu sgil dysgu mewn un pwnc er mwyn cefnogi'r dysgu mewn pwnc arall, gall blant gymhwyso gwybodaeth mewn cyd-destun arall gan wneud llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn fwy perthnasol i blant.

Dadleuir llawer wrth ddefnyddio pwnc fel partneriaeth o fewn y model yma, y mae'n gwneud y dysgu yn hawsach gan fod amser yn brin er mwyn ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm.

Fodd bynnag, dywed mai ond ychydig o gynydd y ceir wrth ymwneud a phwnc israddol o fewn y model. (Barnes, 2015).

“Mae'r dibenion cwricwlwm yn rhoi pwyslais ar yr angen i feithrin hyder a chapasiti i ddysgu drwy gydol oes.” (Dyfodol Llwyddiannus, 2015, t. 69). Cydnabyddir gan Donaldson y pwysigrwydd o feithrin a datblygu sgiliau a fydd yn drosglwyddadwy ar gyfer dyfodol ein disgyblion.

Tywydd a hinsawdd:

Sgiliau Cymhwysedd Digidol: Ymchwilio i sut mae lleoedd yn newid - sut mae'r tywydd yn effeithio ar y ffordd mae pobl yn byw gan ddewis yr hyn sydd angen er mwyn cwblhau'r dasg gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau.

Sgiliau Llythrennedd: Dechrau sylwi ar wahaniaethau rhwng ardal eu hunain ac ardaloedd mewn rhannau eraill o Gymru a gwledydd eraill y byd drwy lunio rhestr cymharu rhwng Cymru a gwlad arall. Datblygu ar eirfa disgyblion wrth ddisgrifio'r tywydd e.e. y yn boeth, yn oer, sych, wlyb, wyntog ayyb. Adnabod yr effeithiau y mae'r gwahanol dymhorau yn cael ar rai anifeiliaid a phlanhigion. Pa rannau o'r byd sydd â phatrymau hinsawdd debyg i ni yng Nghymru?

Tymhorau'r flwyddyn:

Sgiliau Llythrennedd: Trafod ar lafar nodweddion y tywydd gan ddefnyddio geirfa bwrpasol i ddisgrifio. Trafod os yw'r tywydd yr un peth bob dydd. Adnabod geiriau a lluniau ar sgrin a deall eu hystyr. Tywydd yn newid gyda'r tymhorau.

Sgiliau Rhifedd: Canu

dyddiau'r wythnos, misoedd a thymhorau'r flwyddyn wrth newid calendr y dosbarth. **Sgiliau Llythrennedd:** Ymuno wrth adrodd a chymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill gyda pheth rhyngweithio.

Thema Seiliedig: Dydd Gŵyl Dewi (Bl.2)

Gwisg genhinen yn dy gap. A gwisg hi yn dy galon.

Digidol Ddwyg! Dewi's Hapus!



Gweithgaredd: Creu rysâit cawl
Sgiliau Llythrennedd: Trefnu syniadau a gwybodaeth drwy gael y cyfle i ysgrifennu genre cyfarwyddiadau drwy greu rysâit cawl. Bydd angen strwythur a threfn ar y genre gan y defnydd o eirfa trefnu megis yn gyntaf, yna, wedyn, i gloi er mwyn nodi'r cyfarwyddiadau yn glir fesul cam.

Sgiliau Cymhwysedd Digidol: Cael y cyfle i ymarfer, datblygu a mireinio eu sgiliau o greu genre cyfarwyddiadau rysâit gan ail ddrafftio yn ddigidol drwy gynhyrchu testun a'i chwblhau gan ddewis meddalwedd priodol er mwyn cyflwyno.

Sgiliau Rhifedd: Defnyddio a chymhwyso sgiliau mesur mewn tasg ymarferol gan ddefnyddio unedau safonol i fesur pwysau a chynhwysedd cynhwysion y rysâit.